# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Llanhari

Dyddiad yr arolygiad: 06/10/2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Llanhari yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n hyrwyddo ymdeimlad cryf o berthyn. Mewn sesiynau dysgu, mae bron pob un athro yn meithrin perthynas waith gadarnhaol â disgyblion. O ganlyniad i'r gofal bugeiliol gwerthfawr, a'r ddarpariaeth iechyd a lles effeithiol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae eu hymddygiad yn hynod gwrtais a pharchus. Nodwedd gref yw parodrwydd disgyblion i gydweithio a thrafod gyda'u cyfoedion, gyda llawer ohonynt yn arddangos agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ystod oedran yn gwneud y cynnydd disgwyliedig, gydag ychydig yn gwneud cynnydd cryf yn eu gwersi a dros amser. Mae disgyblion yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd, yn arbennig eu medrau siarad a gwrando. Yn ogystal, mae cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu tra byddant yn yr ysgol. Fodd bynnag, er bod y cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd a digidol disgyblion wedi'u cynllunio ar draws y cwricwlwm, nid yw'r ddarpariaeth wedi ei chydlynu'n ddigon strategol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn datblygu'r medrau hyn yn gynyddol yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Mae staff yn darparu gweithgareddau dysgu a phrofiadau gwerthfawr sy'n cefnogi disgyblion i ymgartrefu'n gyflym a chyfrannu'n llawn i fywyd yr ysgol. Mae cydweithio buddiol ag ysgolion partner, er enghraifft wrth hyrwyddo statws ieithoedd rhyngwladol fel rhan o'r cwricwlwm. Yn ogystal, mae cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gyfrannu at amrywiol bwyllgorau a chymryd rhan mewn ystod dda o weithgareddau allgyrsiol a theithiau.

Mae'r ysgol yn datblygu diwylliant o ddysgu proffesiynol yn llwyddiannus. Mae ffocws clir ar ddysgu ac addysgu yn cael effaith gadarnhaol ar yr hyn sy'n digwydd mewn gwersi. O ganlyniad, mae bron bob un athro yn sicrhau amgylchedd dysgu cefnogol ac yn meithrin perthynas waith gadarnhaol â disgyblion. Mae llawer o athrawon yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol, yn cynnig adborth llafar adeiladol ac yn holi cyfuniad priodol o gwestiynau i wirio gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r tîm arwain yn cydweithio'n agos ac yn rhannu eu gweledigaeth uchelgeisiol sydd wedi ei seilio'n gadarn ar werthoedd Cymuned, Cymreictod a Chynnydd. Er bod gan arweinwyr brosesau addas ar gyfer hunanwerthuso'r ddarpariaeth a chynllunio ar gyfer gwella, nid ydynt bob amser yn canolbwyntio digon ar effaith eu gwaith ar ddeilliannau disgyblion.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella:**

A1. Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd a digidol disgyblion yn gynyddol ar draws y cwricwlwm

A2. Miniogi'r prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella er mwyn canolbwyntio'n fanylach ar y camau fydd yn dylanwadu fwyaf ar ddeilliannau disgyblion

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/12/2025